



Pecyn cymorth rheolwyr gwirfoddolwyr digwyddiadau Yn gweithio gyda gwirfoddolwyr am y tro cyntaf?

Efallai'ch bod yn ystyried cynnwys gwirfoddolwyr yn eich digwyddiad neu'ch prosiect am y tro cyntaf. Dyma ambell i gwestiwn i'ch rhoi ar ben ffordd, a dolenni at wybodaeth ddefnyddiol.

Pam?

Efallai ei fod yn ymddangos yn amlwg i chi, ond mae'n werth ystyried pam rydych yn cynnwys gwirfoddolwyr. Beth yw'r budd i chi? Beth yw'r budd iddyn nhw? A yw'n gyfle buddiol, 'ta a yw'n cymryd mantais? Ai arbed costau yw'r unig nod? Mae'r daflen wybodaeth [Datblygu Strategaeth Gwirfoddolwyr](#) yn codi rhai o'r cwestiynau mae'n werth eu hystyried o'r cychwyn cyntaf.

Beth?

P'un ai a ydych yn cynllunio digwyddiad untro neu raglen barhaol, os yw'n bosib dylech lunio rolau sydd wedi'u diffinio'n glir ac a fydd yn gweddu i amrywiaeth o bobl: gall rhai ohonynt fod yn rhai syml heb angen unrhyw brofiad neu hyfforddiant tra bydd angen mwy o sgil neu gyfrifoldeb i wneud rhai eraill. Mae'r daflen wybodaeth [Recriwtio, Dethol a Sefydlu Gwirfoddolwyr](#) yn ystyried ble a sut i gyfleu neges a fydd yn denu'r gwirfoddolwyr cywir.

Mae [disgrifiad enghreifftiol](#) o rôl gwirfoddolwr ar gael yma. Cyn i chi hysbysebu'ch rolau gwirfoddoli yn gyhoeddus, cynhaliwch [asesiad risg](#) i ganfod beth allai fynd o'i le a beth allwch ei wneud i leihau neu reoli risgiau. Weithiau bydd newidiadau bach yn yr hyn rydych yn gofyn i wirfoddolwr ei wneud, neu'r ffordd maent yn ei wneud, yn lleihau'r risgiau i'r gwirfoddolwyr eu hunain neu i eraill yn fawr.

Mae'r [Cod Ymarfer](#) i fudiadau sy'n cynnwys gwirfoddolwyr yn nodi egwyddorion arfer da wrth gynnwys gwirfoddolwyr. Os oes gennych hefyd weithlu cyflogedig sylweddol yna mae'n werth bwrw golwg ar [Siarter](#)

[WCVA/TUC Cymru ar gyfer cryfhau'r cysylltiadau rhwng staff cyflogedig a gwirfoddolwyr.](#)

Sut?

I gael gwybod mwy am arfer da wrth reoli gwirfoddolwyr, gweler y Safon [Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr](#), sydd ar gael i'w lawrlwytho am ddim.

Bydd polisïau a gweithdrefnau priodol yn cefnogi arfer da wrth reoli gwirfoddolwyr. Mae union gynnwys a manylder y rhain yn dibynnu ar natur eich mudiad a natur y gweithgaredd gwirfoddoli. Po fwyaf yw'ch rhaglen wirfoddoli, po fwyaf cymhleth a ffurfiol yw hi, neu po fwyaf o risg sydd ynghlwm wrth y gweithgaredd gwirfoddoli, y mwyaf o fesurau diogelu a pholisïau y bydd angen i chi eu rhoi yn eu lle.

Fe'ch cynghorir i o leiaf fod â [pholisi gwirfoddoli](#) addas ac [yswiriant](#) i wirfoddolwyr. Bydd eich polisi gwirfoddoli yn ymdrin â phob pwnc perthnasol megis recriwtio, iechyd a diogelwch, hyfforddi a goruchwyllo, treuliau, a beth sy'n digwydd pan fydd pethau'n mynd o'i le. Cofiwch ei adolygu a'i ddiweddarau'n rheolaidd. Er enghraifft, os ydych yn cynnwys gwirfoddolwyr yn rheolaidd ac yna'n dechrau recriwtio gwirfoddolwyr i helpu mewn digwyddiadau untro, a yw'ch polisi yn cynnwys hyn?

Os ydych yn gweithio gyda phobl ifanc neu oedolion agored i niwed bydd angen i chi ystyried [diogelu](#), gan gynnwys polisi diogelu. Os yw gwirfoddolwyr yn gweithio ar eu pen eu hunain, neu gyda chleientiaid yna gallai polisi gweithio'n unigol, neu bolisi cyfrinachedd fod o gymorth.

Mae cyfres o [daflenni gwybodaeth gan WCVA/Cynghorau Gwirfoddol Sirol](#) yn ymdrin ag ystod o bynciau gan gynnwys [gyrwr gwirfoddol](#), gweithio gyda gwahanol grwpiau targed, [talw treuliau](#), ac [ystyriaethau cyfreithiol](#). Os na welwch yr hyn rydych ei angen yma, ffoniwch Ddesg Gymorth WCVA 0800 2888 329 neu ebostio volunteering@wcva.org.uk.

Ysbryd Gwirfoddoli Cymru: Pecyn cymorth gwirfoddoli mewn digwyddiadau.

Cyhoeddwyd gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA). Mai 2017.

Prif swyddfa: Tŷ Baltig, Sgwâr Mount Stuart, Caerdydd, CF10 5FH. Ffôn: 0800 2888 329 (croesawir galwadau yn Gymraeg ac yn Saesneg). Ebost: help@wcva.org.uk

Elusen Gofrestredig rhif 218093, cwmni cyfyngedig drwy warant 425299.

Mae WCVA yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Os ydych yn gohebu yn Gymraeg byddwn yn ymateb i chi yn Gymraeg, ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn achosi oedi.